International Education Programme

# Adroddiad Prosiect yr Iaith Gymraeg

2023-24

www.britishcouncil.org

# Cyflwyniad

Sefydlwyd Prosiect yr Iaith Gymraeg ym 1997 gyda'r bwriad o hybu a datblygu'r Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, yr Ariannin. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor Prydeinig yn anelu at anfon 3 o athrawon o Gymru i dreulio blwyddyn academaidd lawn (10 mis) yn gweithio ym Mhatagonia, gan ddatblygu'r iaith mewn cymunedau lle siaredir y Gymraeg, drwy addysgu pobl ifanc ac oedolion yn ffurfiol mewn dosbarthiadau yn y 3 ysgol ddwyieithog a hefyd trwy gyfrwng gweithgareddau cymdeithasol, anffurfiol. Mae Cydlynydd Addysgu parhaol o Gymru, sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysgu, hefyd wedi'i leoli ym Mhatagonia. Ail agwedd y prosiect yw rhwydwaith o diwtoriaid Cymraeg eu hiaith sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth, yn darparu cymorth addysgu i'r ysgolion dwyieithog yn ogystal ag addysgu oedolion. Trwy gyfrwng ysgoloriaethau Haf a ariennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae cyrsiau Addysg Oedolion yn rhoi cyfleoedd i addysgwyr ym Mhatagonia ymweld â Chymru er mwyn mynychu cyrsiau Cymraeg, gan sicrhau bod y prosiect yn helpu i gynnal safonau addysgu a bod y methodolegau diweddaraf ar waith.

Rheolir Prosiect yr Iaith Gymraeg gan y Cyngor Prydeinig mewn cydweithrediad â Phwyllgor y Prosiect. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig yng Nghymru, Cymdeithas Cymru-Ariannin, Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mudiad Meithrin.



*Disgyblion ac athrawon Ysgol Y Cwm 2023*

# Llwyddiannau 2022-23

- 2 athro o Gymru (Awst 2023 – Rhagfyr 2023)
- 1 athro o Gymru (Mawrth 2024 – Rhagfyr 2024)
- 1 Athro yn Gydlynydd ym Mhatagonia
- 1 athro Cymraeg i oedolion/digidol yng Nghymru (rhan amser)
- 20+ o diwtoriaid lleol ym Mhatagonia
- Llwyddodd 9 myfyriwr i basio arholiadau CBAC ar lefel Mynediad a 5 ar lefel Sylfaen
- 970 o ddysgwyr cofrestredig (ysgolion a dysgwyr sy'n oedolion)exams Mynediad (Entry) level and 5 Sylfaen (Foundation)

# Athrawon sy'n gadael 2023

Mae'r diffyg cefnogaeth gan athrawon o Gymru i'r addysgu mewn ysgolion a'r gymuned ym Mhatagonia ers y pandemig yn 2020 wedi bod yn her i'r prosiect yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn er gwaethaf ymdrechion enfawr gan siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg yn Chubut i sicrhau parhad y prosiect.

Agorodd y broses recriwtio ar gyfer lleoliadau yn ystod 22-23 ym mis Hydref 2022, ond oherwydd ymateb siomedig, cafodd y broses hon ei chadw ar agor tan ddiwedd mis Ebrill 2023, gan alluogi recriwtio 2 athro i gymryd lleoliadau addysgu 5 mis rhwng Awst a Rhagfyr 2023. Cynigiwyd swyddi i 3 athro i ddechrau, ond fe dynnodd un yn ôl ym mis Mai oherwydd rhesymau personol. Y ddau athro oedd:




*Thomas a Llinos*

Thomas Door – Athro Meithrin hyd at Flwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr.
Llinos Howells - Athrawes a Dirprwy Bennaeth CA2 Cynradd wedi ymddeol, sy'n gweithio'n rhan amser yn Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful ar hyn o bryd, i wella Sgiliau Ieithyddol Cymraeg y disgyblion.

Roedd Thomas wedi'i leoli'n bennaf yn Ysgol y Cwm yn yr Andes, gan addysgu Blynyddoedd 1-6 am 4 diwrnod yr wythnos. Bu hefyd yn addysgu Cymraeg i Oedolion (lefel Mynediad hyd at

Ganolradd) yng Nghanolfan Cymraeg Esquel am 2 ddiwrnod yr wythnos. Yn ogystal ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth, bu Thomas hefyd yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys:

- Diwrnod Owain Glyndŵr, Medi 2023 – Gwasanaeth yn yr ysgol lle bu disgyblion yn dysgu am Owain Glyndŵr, gan gynnwys perfformiadau a chaneuon
- Eisteddfod Mimosa, Hydref 2023 – disgyblion Coleg Merthyr ac Ysgol y Cwm yn ailadrodd hanes Cymru a'r Ariannin
- Cyngerdd gyda'r band Cymraeg Elidyr Glyn ac Ysgol Y Cwm, yn cynnwys perfformiadau gan ddisgyblion Ysgol Y Cwm
- Prosiect ffilm Mimosa, Tachwedd 2023 – Creu 'Stop Motion' gyda'r disgyblion ar stori'r Cymry yn yr Ariannin
- Nosweithiau cwis a thafarn i'r gymuned, lle siaredir y Gymraeg

Bu Thomas hefyd yn sefydlu cysylltiadau trwy gyfrwng fideos, ebyst a llythyrau rhwng Ysgol y Cwm ac ysgolion yng Nghymru (Pen y Dre, Merthyr Tudful, Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, Rhondda ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, Aberdâr).

Roedd Llinos wedi ei lleoli yn Nhrelew ac yn addysgu Blwyddyn 4 yn Ysgol Gymraeg y Gaiman yn y boreau, a Blynyddoedd 1-6 yn Ysgol yr Hendre yn y prynhawniau. Bu hefyd yn cynnal dosbarthiadau i oedolion ddwy waith yr wythnos a threulio un bore'r wythnos yng Ngholeg Camwy gyda disgyblion yr ysgol uwchradd, yn trafod materion cyfoes yn Gymraeg. Ar sail ysgogiad Llinos, bu'r ysgolion yn rhan o Eisteddfod Mimosa ym Mhorth Madryn ym mis Awst 2023, Eisteddfod yr Ifanc ym Medi 2023 ac Eisteddfod y Wladfa, Hydref 2023. Roedd gweithgareddau cymdeithasol yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymraeg yng Nghapel Bethel, y Gaiman
- Nosweithiau cymdeithasol
- Cyngherddau a gwasanaethau Nadolig
- Cyfweliad gydag Aled Hughes ar Radio Cymru



Llwyddodd Llinos hefyd i greu cysylltiadau rhwng ei hysgolion hi ag ysgolion yng Nghymru. Cynhaliodd nifer o sesiynau ar Zoom gydag athrawon a disgyblion yn Aberystwyth, Rhydaman, Brynaman a Merthyr Tudful.


*Llinos and her class in Gaiman*

Gan mai dim ond 2 athro gafodd eu recriwtio, roedd Llinos wedi'i lleoli mewn 2 ysgol yn y Gaiman a Threlew, a bu'r teithio rhwng yr ysgolion yn her iddi. Roedd y symud o un ysgol a dosbarth i ysgol a dosbarth arall yn arwain at ddiffyg o ran dilyniant yn yr addysgu. Mae hi hefyd yn anodd i athrawon Cymraeg ddechrau ar eu lleoliadau yng nghanol y flwyddyn yn hytrach nag ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Chwefror, gan fod amserlenni ysgolion eisoes wedi'u trefnu a gweithgareddau cymdeithasol eisoes ar y gweill. Oherwydd hyn, nid yw athrawon Cymraeg yn rhan o gynllunio na dylunio gwersi Cymraeg.

## Athrawon sy'n gadael 2024

Dechreuodd y broses recriwtio ar gyfer lleoliadau yn ystod 24-25 ym mis Awst 2023, er mwyn cyd-fynd â'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd gan Gymdeithas Cymru-Ariannin stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol oedd yn cynnwys arddangosfa o weithgareddau'r Prosiect Iaith Gymraeg dros yr 20 mlynedd diwethaf, gan gynnwys disgyblion ac athrawon yn sôn am werth y cynllun.

Cafodd Prosiect yr Iaith Gymraeg sylw digynsail yn y wasg a'r cyfryngau yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys eitemau a chyfweliadau gyda'r athrawon ar Sky News, newyddion Cenedlaethol ITV, BBC Cymru, a sylw yn y wasg ar S4C, Nation Cymru, a llawer o wefannau newyddion rhanbarthol yng Nghymru. Cafodd Cyfarwyddwr British Council Cymru ac athro o 2020 eu cyfweld ynghylch y cynllunyn fyw ar Radio Cymru, ac fe'i dyfynwyd 27 o weithiau yn y wasg.




Derbyniwyd 7 cais erbyn y dyddiad cau ym mis Hydref, ac o'r rhain, gwahoddwyd 4 i gyfweliad. Cynigiwyd lleoliadau i 3 athro ar gyfer 2024, ond fe dynnodd un yn ôl oherwydd newid mewn amgylchiadau personol. Gwnaed y penderfyniad, ar y cyd gyda’r rhanddeiliaid yn yr Ariannin, i anfon dim ond y 2 athro oedd yn weddill i Batagonia ym mis Mawrth 2024, ond yn anffodus fe dynnodd un o’r rhain yn ôl yn dilyn y briffio cyn gadael ym mis Ionawr 2024. O ganlyniad, dim ond 1 athro o Gymru sydd ym Mhatagonia am y flwyddyn academaidd 24-25, sef Rhian Lloyd. Mae Rhian yn gyn-Bennaeth Ysgol Pencarnisiog, Ynys Môn ac ar hyn o bryd yn athrawes Gymraeg yn Ysgol y Graig, Llangefni. Bydd yn cymryd cyfnod o absenoldeb o’r ysgol i weithio yn Ysgol y Cwm yn ardal yr Andes. Yn anffodus, mae hyn yn gadael Ysgol y Gaiman ac Ysgol Trelew heb athrawes Gymraeg a ariennir gan y Prosiect, er bod Llinos o garfan 2022 wedi aros ym Mhatagonia ac yn cael ei chyflogi’n uniongyrchol gan Ysgol y Gaiman erbyn hyn.

## Niferoedd disgyblion/dysgwyr sy'n oedolion

Cynhaliwyd awdit o ddysgwyr sy’n oedolion a dysgwyr sy’n ddisgyblion ar ddiwedd Rhagfyr 2023, ac mae 970 o ddysgwyr cofrestredig ar hyn o bryd. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o’i gymharu â nifer y dysgwyr cyn y pandemig yn 2019, sef cyfanswm o 1411. Gellir priodoli’r gostyngiad i leihad yn nifer y dysgwyr sy’n oedolion yn bennaf a gollwyd yn ystod y pandemig ac nad ydynt wedi dychwelyd i ddysgu Cymraeg. Mae'n gynnydd o’r nifer yn 2020, sef 623, pan gynhaliwyd yr archwiliad diwethaf, ond heb y 3 athro bob blwyddyn sydd â'r amser i wneud ymdrechion ar y cyd i ddenu’r dysgwyr sy’n oedolion yn ôl, mae'r nifer yn annhebygol o gynyddu'n gyflym.

| Lleoliad | Lefel | Dysgwyr |
|---|---|---|
| **Comodoro Rivadavia** | Mynediad | 3 |
| **Comodoro Rivadavia** | Mynediad | 5 |
| **Esquel** | Sylfaen | 7 |
| **Esquel** | Mynediad | 5 |
| **Esquel** | Mynediad | 3 |
| **Trevelin** | Mynediad | 6 |
| **Trevelin** | Canolradd | 1 |
| **Gaiman** | Uwch | 7 |
| **Gaiman** | Canolradd | 6 |
| **Porth Madryn** | Blasu | 10 |
| **Porth Madryn** | Mynediad 1 | 8 |
| **Porth Madryn** | Mynediad 2 | 9 |
| **Tir Halen** | | 5 |
| **Trevelin – Ysgol y Cwm** | Plant | 150 |
| **Gaiman - YGYG** | Plant | 170 |
| **Trelew - Hendre** | Plant | 150 |
| **Bryn Gwyn Ysgol 61** | Plant | 210 |
| **Coleg Camwy** | Arddegau | 215 |
| **Cyfanswm** | | 970 |

## Ysgoloriaeth 2023/2024

Cynhaliwyd yr ysgoloriaeth newydd a ariennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ym mis Awst, gydag Eduardo Marinho o Borth Madryn yn mynychu cwrs Canolradd B1 yn Aberystwyth. Gan ei fod yn gweithio yn amgueddfa Punta Cuevas ym Mhorth Madryn, bu Eduardo hefyd yn treulio amser mewn amrywiol amgueddfeydd yng Nghymru, diolch i gysylltiadau a wnaed gan aelodau Cymdeithas Cymru-Ariannin. Cafodd lleoliad Eduardo sylw'r cyfryngau ym Mhatagonia.
https://www.elchubut.com.ar/puerto-madryn/2023-7-15-19-51-0-eduardo-marinho-el-guiamadrynense-que-viajo-a-gales-con-una-beca-para-perfeccionar-el-idiomagales#google_vignette

Fodd bynnag, mae amheuaeth ynghylch dyfodol yr ysgoloriaethau, gan fod y Ganolfan Genedlaethol yn methu ag ariannu ysgoloriaethau pellach o 2024 ymlaen, oherwydd y canolbwyntio ar gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2025. Mae rhywfaint o gyllideb yn weddill yn y gronfa ysgoloriaethau presennol, ond oherwydd cynnydd yn y costau teithio a chynnydd yn y gyfradd chwyddiant yn yr Ariannin, mae'n


debygol mai dim ond un ysgoloriaeth wedi'i hariannu fydd ar gael yn 2024, a bydd yr ysgoloriaethau'n dod i ben yn 2025.

# Staff Prosiect Iaith Gymraeg

## Marian Brosschot

Drwy gydol 2023-24, mae Marian wedi parhau i greu cynnwys digidol ar gyfer y Prosiect ar ei Sianel You Tube “Gales Con Marian” (Cymraeg gyda Marian), gan gynnwys rhannu fideos o Gymru ar flog er mwyn i ddysgwyr eu gweld mewn cyd-destun Cymreig. Gellid defnyddio’r rhain yn y dosbarth a’r tu allan i’r dosbarth, a hefyd gan fyfyrwyr o’r tu allan i ddalgylch Chubut. Mae’r adnoddau digidol wedi llwyddo i ddenu diddordeb pobl sy’n newydd i ddysgu Cymraeg yn ogystal â chefnogi myfyrwyr presennol ac uwch.
Mae’r fideos a grëwyd eleni yn cynnwys esboniadau gramadegol, caneuon yn y Sbaeneg ac yn y Gymraeg gan gynnwys is-deitlau, cymorth gydag ynganu a fideos ar gyfer y flog sy’n cynnwys is-deitlau Cymraeg. Mae’r flogiau hyn hefyd yn ffordd wych o gyflwyno diwylliant Cymreig i wylwyr ac annog cyfranogiad yn yr adran sylwadau. Crëwyd 5 fideo yn dilyn ymweliad â Phatagonia ym mis Chwefror 2024, sy’n rhoi cyfle i wylwyr yn Chubut weld a chlywed trafodaeth yn Gymraeg am eu bro eu hunain a lleoliadau cyfarwydd. Mae llawer o athrawon yn defnyddio'r fideos hyn yn y dosbarth gyda'u dysgwyr. Rhennir y fideos ar gyfryngau cymdeithasol ac o fewn grwpiau WhatsApp, ac fel deunydd gwersi ar gyfer unigolion a grwpiau. Erbyn diwedd Mawrth 2024, roedd y sianel newydd gyrraedd 3,500 o danysgrifwyr (wedi codi o 1,500 o danysgrifwyr ar ddiwedd mis Mawrth 2023) ac mae bron â chyrraedd 200 o fideos, sy'n cael eu gwylio gan hyd at 3000 o wylwyr yn rheolaidd.
Uchafbwynt arbennig oedd y fideo “Pam mynd i weithio i’r Wladfa?” Gofynnwyd y cwestiwn yn ystod wythnos yr Eisteddfod i ddysgwyr a Chymry Cymraeg sydd unai’n dod o Batagonia neu’n byw yno, er mwyn dangos i bobl pam fod cael athrawon o Gymru yn mynd i Batagonia mor bwysig iddyn nhw.
https://www.youtube.com/watch?v=LmqrZ7x4iPw&t=7s

Mae Marian hefyd yn cyfrannu’n gyson i dudalen Facebook Menter Patagonia sydd â 1,700 o ddilynwyr. Ar y dudalen, rhennir fideos a gwybodaeth am ddigwyddiadau a chynhwysir deunydd dysgu byr. Mae hi hefyd yn cyfrannu i dudalen Instagram Menter Patagonia.
Mae Marian hefyd yn gweithio ar gyfieithu’r llyfrau cwrs dysgu o’r Gymraeg i Sbaeneg, gan ddarparu llyfrau cwrs dwyieithog i’r tiwtoriaid, sydd wedi’u haddasu ar gyfer y gynulleidfa leol ym Mhatagonia, yn hytrach na llyfrau cwrs Saesneg/Cymraeg ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Cyfieithwyd y llyfrau cwrs Mynediad a Sylfaen yn y blynyddoedd a fu, cwblhawyd y gwaith o gyfieithu’r cwrs Canolradd eleni. Mae’r gwaith o gyfieithu’r llyfr cwrs ail lefel (Sylfaen – A2) ar y gweill a bydd yn cael ei gwblhau yn y misoedd nesaf.
Mae Marian hefyd yn gweithio gyda British Council Cymru, ac yn ystod yr haf mae hi’n hyrwyddo a hysbysebu lleoliadau addysgu newydd, yn mynychu ac yn cyflwyno mewn sesiynau briffio ar gyfer athrawon newydd cyn iddynt adael am Batagonia, a bu’n allweddol yn ystod yr Eisteddfod wrth wneud trefniadau ar gyfer sylw’r wasg, cyfarfod â’r athrawon newydd o Gymru a chynorthwyo ar stondin Cymdeithas Cymru-Ariannin.




# Adroddiad gan Clare Vaughan, Cydlynydd Addysgu,

### Trevelin, Patagonia Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa 2023

Ers y pandemig rydym wedi bod yn aros i bethau fynd yn ôl i'r arferol, ond dangosodd 2023 i ni nad oes 'arferol' i'w gael bellach. Ni lwyddwyd i lenwi'r 3 swydd ar gyfer athrawon o Gymru oedd am ddod allan i weithio gyda'r cymunedau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn yr Ariannin. Roedd hyn yn ergyd i'r ysgolion yn arbennig, ac felly bu'n rhaid ailhysbysebu yn y gobaith o gyflogi athrawon am ail hanner y flwyddyn. Cyflogwyd 2 yn y Dyffryn (rhan ddwyreiniol talaith Chubut) ac 1 yn yr Andes yn y gorllewin. Tra bod y cymunedau yn ddiolchgar am unrhyw gefnogaeth, tymor byr neu hir, ac yn derbyn yr athrawon gyda breichiau agored, mae'n anodd iawn i'r athrawon gyrraedd pan fo dros hanner y flwyddyn ysgol wedi ei chwblhau, a phan fo amserlenni wedi eu gosod ers mis Chwefror a chymaint o weithgareddau fel eisteddfodau a chyngherddau ac ymweliadau a theithiau ysgol yn torri ar draws y dysgu yn y dosbarth. Mae'r digwyddiadau hyn o bwys mawr i'r cymunedau ac yn hollbwysig ar gyfer gwarchod agweddau diwylliannol yr iaith: Eisteddfod Porth Madryn (Awst), Eisteddfod yr Ifanc (Medi), Eisteddfod Chubut (eisteddfod y dalaith gyfan ym mis Hydref), dathliadau penblwydd Trevelin (Tachwedd) a dosbarthiadau yn dod i ben ym mis Rhagfyr. Er mwyn cael y gorau o'r profiad yn y gymuned, mae'n bwysig cael athrawon a fydd yn bresennol gyda'r dysgwyr ym mhob agwedd o'r iaith a'r diwylliant yn ystod y flwyddyn gyfan.






*Perfformiadau o Eisteddfod Mimosa, Porth Madryn*

Pan ddaw athrawon i Batagonia am 4 mis yn unig, mae eu profiad fel arfer yn wahanol iawn i'r rhai sy'n buddsoddi bron i flwyddyn gyfan mewn addysgu ym Mhatagonia. Mae'n

cymryd amser i ddod i adnabod pobl, hyd yn oed pan y byddant yn allblyg ac yn gymdeithasol fel yr Archentwyr! Mae'n cymryd amser i ddod i adnabod y dysgwyr a deall eu hanghenion yn iawn. Mae’n cymryd amser i deimlo’n hyderus wrth drefnu digwyddiadau cymdeithasol lle gellir defnyddio’r iaith mewn sefyllfa fwy anffurfiol. Rydym yn gofyn llawer gan yr athrawon, ond mae’n bwysig bod yr holl elfennau hyn o ddysgu ac arfer yr iaith ar gael. Mae llawer o’n cyn-ddysgwyr bellach yn gweithio fel tiwtoriaid neu athrawon neu gymorthyddion dosbarth ac nid oes ganddynt amser i astudio’n ffurfiol yn y dosbarth, felly mae arnynt angen y cyfleoedd cymdeithasol hyn i ddefnyddio’r iaith mewn sefyllfa go iawn. Serch hynny, rydym yn falch iawn o'u hymdrechion ac yn absenoldeb athrawon o Gymru, mae'r athrawon lleol hyn yn cadw'r ysgolion i fynd.

Mae elfen gymdeithasol y prosiect wedi gwanhau yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn diflaniad arian gan Menter Iaith ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol: mae nosweithiau cyri a ‘Cawl a Chân’ wedi bod yn boblogaidd iawn yn y gorffennol a hyd yn oed yn denu pobl nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau’n rheolaidd. Fodd bynnag, mae’n rhaid cael cyllid er mwyn i’r athro neu’r athrawes brynu’r cynhwysion ac argraffu tocynnau a phosteri i hyrwyddo’r noson. Mae’n eironig, er nad oes cyllid ar gael ar gyfer yr agwedd o’r Prosiect sy’n cynnwys digwyddiadau cymdeithasol, mae mwy na 1600 o aelodau o bedwar ban byd wedi cofrestru yn aelodau o dudalen Facebook Menter Patagonia. Un o gyfrifoldebau’r athrawon yw cynnal momentwm y dudalen hon, ond unwaith eto, gan mai dim ond 16 wythnos sydd ar gyfer gwneud hyn, nid yw’n hawdd cynnwys pob tasg. Mae angen chwilio am ffynhonnell arall o gyllid er mwyn adennill y rhan hwn o rolau’r athrawon, oherwydd heb hwb fel hynny, mae perygl i’r iaith aros o fewn muriau’r dosbarth.

Rhywbeth a gollwyd yn ystod y pandemig ac ni welsom unrhyw arwyddion o’i adfer yn ddiweddar, yw’r ymweliad blynyddol gan fyfyrwyr o Gymru a hwyluswyd gan fudiad ieuenctid yr Urdd. Roedd yr ymweliad hwn yn gyfle i bobl ifanc oedd yn dysgu’r iaith i gwrdd â’u cyfoedion a chyfnewid diwylliant a rhannu profiadau. Un o’r gwersi a ddysgwyd o’r cyfnewid diwylliannol hwn oedd bod y myfyrwyr o Gymru wedi llwyr ryfeddu at ymdrechion eu cymheiriaid yn yr Ariannin i ddysgu’r iaith. Roedd y neges hon yn cyrraedd Cymru ac efallai’n ysgogi’r myfyrwyr Cymraeg i roi hyd yn oed mwy o ymdrech i gynnal yr iaith yn y famwlad.



*Y ddwy ochr i’r galwad Zoom rhwng Ysgol Y Gaiman, Patagonia ac Ysgol Pwll Coch, Caerdydd*

Mae'r addysg a dderbynia'r disgyblion yn gyfannol o gymharu ag addysg y wladwriaeth ac felly gallant gyfrannu at gyngherddau ac eisteddfodau gyda cherddoriaeth a dawns sy'n dathlu diwylliant y gwladfawyr o Gymru. Pan ddaw ymwelwyr o bedwar ban byd i'r Wladfa, ac yn arbennig ymwelwyr o Gymru, cânt groeso arbennig gan ddisgyblion ac oedolion sy'n byw mewn rhan fwy ynysig o'r byd ac sy'n gyffrous i gwrdd â nhw.

Menter arall, a gychwynnwyd yn bennaf gan athrawon o Gymru, yw creu cyswllt rhwng ysgolion o Batagonia ag ysgolion Cymru. Mae'n haws i athrawon o Gymru wneud hyn gan fod ganddynt fel arfer gysylltiadau arbennig ag ysgolion unigol a maent yn gwybod â phwy i gysylltu. Byddai o fudd i addysg y disgyblion petai hyn yn cael ei ffurfioli ychydig, gan alluogi'r dair ysgol gynradd i gymryd rhan mewn prosiect o'r fath.






Gydag anogaeth athrawon o Gymru, bu Ysgol Gymraeg y Gaiman yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ar-lein ac fe wnaethant lwyddo i gyrraedd y rowndiau terfynol a gynhelir

ym mis Mai mewn rhai cystadlaethau Yr her yw rheoli'r gwahaniaeth amser, sef 4 awr rhwng Cymru a'r Ariannin, ond mae'n dangos beth sy'n bosibl pan fo arweiniad cryf gan athrawon o Gymru.



*Disgyblion Ysgol y Gaiman yn cystadlu ar-lein yn Eisteddfod yr Urdd*

Mae Ysgol y Gaiman mewn sefyllfa ffodus, gan fod ganddynt 2 o athrawon o Gymru yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd. Y llynedd, cawsant wirfoddolwyr am ddau gyfnod a chroesawodd Ysgol y Cwm fyfyriwr graddedig i weithio gyda nhw am fis. Mae'r profiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y myfyrwyr ac yn rhoi hwb i'r plant a'r staff.

Mae'r cyfnod pan fo disgyblion yn gadael y 3 ysgol gynradd bob amser yn heriol, gan eu bod wedi arfer ag un ffurf o addysg. Oherwydd hyn, mae wedi bod yn anodd iddynt addasu ar adegau i'r gyfundrefn wladwriaethol, ond yr hyn sy'n galonogol yw bod y mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn dymuno parhau â'u Cymraeg: yn y Gaiman a Threlew, mae Coleg Camwy wedi bod yn addysgu grwpiau llai o fyfyrwyr sydd wedi cael addysg ddwyieithog ac yn Nhrevelin mae myfyrwyr wedi bod yn defnyddio peth o'u hamser rhydd pan nad oeddent yn yr ysgol, i fynychu dosbarthiadau Cymraeg ychwanegol. Yn 2024, bydd Ysgol y Cwm yn agor ysgol uwchradd ac er nad yw'n wirioneddol ddwyieithog (h.y. hanner y cwricwlwm yn Sbaeneg, hanner yn Gymraeg) bydd myfyrwyr yn cael 6 awr o Gymraeg yn ystod yr wythnos.

Yn ogystal â'r nifer fawr o dwristiaid sy'n ymweld â Phatagonia ac yn cael croeso cynnes, roedrhai o'r ymwelwyr eraill â'r Wladfa yn 2023 yn cynnwys-

- Staff a myfyrwyr o Goleg Merthyr yn gweithio ar brosiect gyda disgyblion Ysgol y Cwm.
- Staff o Goleg Dewi Sant, yn canfod gwybodaeth ar gyfer ymweliad yn 2024.
- Daeth 3 aelod o staff Mudiad Meithrin i weithio ochr yn ochr â'n hathrawon lleol, er mwyn gweld lle gallwn adeiladu cysylltiadau a rhannu arfer orau. Bydd 3 o'n hathrawon yn teithio i Gymru er mwyn arsylwi a chymryd rhan mewn cwpl o

wythnosau o weithgareddau, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd 2024.. https://meithrin.cymru/news/vikki-thomas-photos-patagonia-trip-2023/?lang=en

- Myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd yn treulio 2 wythnos yn y Dyffryn a 2 yn yr Andes yn gwirfoddoli yn yr ysgolion.
- Myfyrwyr o Ysgol Syr Hugh Owen yn ymweld â'r Gaiman a'r Dyffryn, gyda'r gobaith o drefnu taith gyfnewid yn y dyfodol.



*Myfyrwyr o Ysgol Syr Hugh Owen yn cyfarfod disgyblion ifanc o Ysgol y Gaiman.*

Un elfen bwysig o waith y prosiect yw'r ffaith fod gan fyfyrwyr gyfle posibl i sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC. Rydym yn annog myfyrwyr i gymryd rhan gan ei bod yn her sy'n rhoi cymhelliant iddynt barhau i wella eu sgiliau iaith, yn arwain at y posibilrwydd o sefyll arholiad a gydnabyddir yn rhyngwladol, a hefyd yn rhoi cyfle i'r Prosiect ennill statws mewn gwlad lle mae arholiadau rhyngwladol yn elfen bwysig o ddysgu iaith a nodi cyflawniad. Yn 2023, llwyddodd 9 o fyfyrwyr i basio lefel Mynediad a 5 i basio lefel Sylfaen ac rydym yn falch iawn eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i gael llwyddiant ar yr un safon â myfyrwyr yng Nghymru.

Wrth ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud yn bennaf gan diwtoriaid ac athrawon lleol, sydd eu hunain wedi elwa o'r Prosiect, mae'n anhygoel faint o effaith y mae'r Prosiect wedi'i chael ar y cymunedau a'r myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan yn ei ddosbarthiadau. Rydym yn wynebu her anhygoel o galed yn ystod 2024, wrth i ni ystyried y cyfyngiadau ariannol ar y ddwy ochr i Fôr yr Iwerydd, y broblem o recriwtio athrawon ac ystod oedran ein hoelion wyth yn yr ysgolion, ac mae hyn i gyd mewn cyd-destun o ostyngiad gwirioneddol mewn cyllid.

Mae’r cymunedau lleol yn pledio gyda ni am eu hathro/tiwtor eu hunain o Gymru ac yn dangos gwir angenrheidrwydd i gael mynediad at yr arfer orau yng Nghymru er mwyn gwella’r hyn y maent eisoes yn ei wneud. Mae'r ysgolion yn dal yn ifanc ac angen arweiniad o hyd o ran addysg ddwyieithog ac mae cael athrawes o Gymru yn hanfodol i lwyddiant parhaus y prosiect, heb sôn am yr angen i ddenu mwy o oedolion i ddysgu Cymraeg. Mae’r hyn sy’n bosibl yn cael ei wneud ar hyn o bryd, trwy wneud aberth sylweddol mewn gwahanol rannau o’r gymuned, ond breuddwyd yn unig yw’r hyn a allai fod yn bosibl, wrth i ni ymdrechu i gael dau ben llinyn ynghyd. Dim ond cynnydd yn y gyllideb a llwyddiant wrth recriwtio athrawon addas o Gymru fydd yn galluogi gwaith y Prosiect i barhau’n gynaliadwy i ddechrau, ac er mwyn iddo barhau i dyfu wedi hynny.

Clare Vaughan, Trevelin




*Staff a Dosbarth Meithrin Ysgol yr Hendre*